

Ansoddeiriau

Cymharu

Mae pedair gradd gan ansoddair:

- **Cyffredin**: term am ansoddair heb ei gymharu e.e. prysur, cryf, mawr, da.
- **Cyfartal** (*equative*): mae un peth yr un fath â'r radd gysefin e.e. mor gryf â
- **Cymharol** (*comparative*): mae rhywbeth yn fwy/llai na rhywbeth arall e.e. mwy prysur
- **Eithaf** (*superlative*): un peth yw'r gorau neu'r gwaethaf, y mwyaf neu'r lleiaf e.e.
y mwyaf golygus

Wrth gymharu pethau â'i gilydd, mae'n bosibl rhoi;

mor mwy/llai mwyaf/lleiaf

o flaen ansoddeiriau'n terfynu yn:

-aidd -ol -og -us -gar

e.e. Mae'n debyg bod y chwedl **mor** boblogaidd heddiw ag y bu erioed.
Mae hi'n gyrru'n **fwy** pwylllog ar hyd y ffyrdd bychain.
Dewi yw'r bachgen **mwyaf** golygus yn y coleg!

Termau

cymharu – *to compare*; cysefin – *positive*; cyfartal – *equative*;
cymharol – *comparative*; eithaf - *superlative*

Cymharu: Defnyddio Ansoddeiriau

Dyma'r patrymau ar gyfer defnyddio ansoddeiriau rheolaidd:

<i>Ansoddair</i>	<i>Cyfartal as tall as</i>	<i>Cymharol taller than...</i>	<i>Eithaf the tallest</i>
tal	mor dal â	yn dalach	y talaf/ y dalaf
hardd	mor hardd â	yn harddach	yr harddaf
cryf	mor gryf â	yn gryfach	y cryfaf / y gryfaf
pert	mor bert â	yn bertach na	y pertaf/y bertaf
tawel	Mor dawel â	yn dawelach na	y tawelaf

Ansoddoddeiriau Cyfartal

Mewn **Cymraeg ffurfiol** byddwch yn dod ar draws y patrymau canlynol;

cyn hired â

cyn daled â

cyn hardded â

Edrychwch ar y brawddegau isod ac fe welwch chi beth yw ystyr yr ansoddeiriau hyn.

Mae hi cyn **brysured** ag arfer yn y llyfrgell.
Mae hi mor **brysur** ag arfer yn y llyfrgell.

Mae'r traethawd hwn cyn **hired** â'r llall.
Mae'r traethawd hwn mor hir â'r llall

cyn gynted â phosibl – mor gyflym â phosibl.
cyn lleied â phosibl – *as little as possible*

Rheolau Treiglo:

1. Bydd **treigladd meddal** ar ôl 'mor' a 'cyn - as' – ond peidiwch â threiglo 'll' a 'rh'

mor **gyflym** â

ond

mor llawn â

2. Cofiwch y **treigladd meddal** ar ôl 'yn' (ond nid 'll' a 'rh')

yn **dalach** na

3. Bydd treigladd laes ar ôl 'â' a 'na'

Mor bwysig â Phennaeth yr ysgol
Yn bwysicach na Phennaeth ry ysgol

Ansoddeiriau

Cymharu ansoddeiriau afreolaidd

Mae nifer o ansoddeiriau **afreolaidd** yn Gymraeg.

Dyma rai enghreifftiau:

uchel	isel
da	drwg
bach	mawr

Nid oes patrwm penodol ar gyfer y rhain;

Ansoddair	Cyfartal <i>as good as</i>	Cymharol <i>better than</i>	Eithaf <i>the best</i>
da	cystal â	yn well	y gorau
drwg	cynddrwg â	yn waeth	y gwaethaf
mawr	cymaint â	yn fwy	y mwyaf
bach	mor fach â cyn lleied â	yn llai	y lleiaf
uchel	mor uchel â cyn uched â	yn uwch na	yr uchaf
isel	mor isel â cyn ised â	yn is na	yr isaf
hawdd	mor hawdd â cyn hawsed â	yn haws na	yr hawsaf

Sylwch nad oes modd rhoi '**mor**' na '**cyn**' o flaen **cymaint**, **cynddrwg** a **cystal**.

e.e. Ni werthwyd **cymaint** o docynnau.

Oeddech chi'n gwybod bod y sefyllfa **cynddrwg** â hyn.

Roedd yr ail ffilm **cystal** â'r un gyntaf.

Cymarfer Colegau – Craidd

Cymharu ansoddeiriau: Ymarfer 1; Ymarfer 2 (ansoddeiriau rheolaidd)

Ymarfer 3; Ymarfer 4. (ansoddeiriau afreolaidd)

Prawf

